Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i gleifion dan ofal yr Uned Llygaid

Glawcoma a Thrabecwlectomi

Beth yw glawcoma?

Mae glawcoma yn cyfeirio at grŵp o gyflyrau llygaid sy'n achosi niwed i'r nerf optig. Mae'r niwed hwn yn aml yn gysylltiedig â phwysedd uchel y tu mewn i'r llygad. Os na chaiff glawcoma ei drin, gall arwain at golli'r golwg yn barhaol.

Fel arfer, mae'r cyflwr yn effeithio ar eich **golwg ochrog (ymylol)** yn gyntaf. Ni ellir gwrthdroi'r niwed ar ôl iddo ddigwydd.

Sut mae trin glawcoma?

Mae'r rhan fwyaf o bobl â glawcoma yn cael eu trin yn llwyddiannus gyda **diferion llygaid**, y mae'n rhaid eu defnyddio bob dydd ar hyd eu hoes.

Os nad yw diferion llygaid yn rheoli'r pwysedd yn ddigon da, gellir argymell triniaethau eraill:

- **Triniaeth laser** – effeithiol ar gyfer rhai mathau o glawcoma
- **Llawfeddygaeth trabecwlectomi** – pan nad yw diferion a/neu laser yn gweithio

Beth yw trabecwlectomi?

Mae trabecwlectomi yn llawdriniaeth sy'n helpu i ostwng pwysedd y tu mewn i'r llygad. Mae'n gweithio trwy greu sianel ddraenio newydd sy'n ei gwneud hi'n rhwyddach i hylif adael y llygad.

- Mae hylif yn draenio o dan wyneb allanol y llygad, gan ffurfio “bleb” bach (ardal fach debyg i bothell).
- O'r fan hon, mae'r hylif yn cael ei amsugno'n naturiol i'r llif gwaed.
- Gwneir agoriad bach yn yr iris hefyd i helpu llif yr hylif.

Mae'r llawdriniaeth yn cymryd tua **40 munud** a gellir ei pherfformio o dan **anesthetig lleol neu anesthetig cyffredinol**.

A fydd y llawdriniaeth yn gwella fy ngolwg?

Nid gwella’r golwg yw nod y llawdriniaeth, ond **atal colli'r golwg ymhellach** .

Ar ôl y llawdriniaeth:

- Mae'n bosibl y bydd eich golwg yn aneglur am sawl wythnos
- Mae hyn yn normal ac fel arfer, bydd yn gwella wrth i'r llygad wella
- Gall gymryd **hyd at 8 wythnos** i'r llygad setlo
- Efallai y bydd angen presgripsiwn newydd i'ch sbectol

Pa mor llwyddiannus yw'r llawdriniaeth?

Mae trabecwlectomi yn driniaeth hynod effeithiol ar gyfer diogelu’r golwg sydd gennych chi.

Ar gyfartaledd:

- Nid oes angen triniaeth bellach ar **80%** o gleifion
- Mae angen diferion llygaid sy'n gostwng pwysedd ar **15%** o gleifion
- Efallai y bydd angen llawdriniaeth arall ar **5%** o gleifion

A oes unrhyw risgiau neu gymhlethdodau?

Mae risg gyda phob llawdriniaeth, er mae problemau difrifol yn anghyffredin.

Mae cymhlethdodau posibl yn cynnwys:

- **Gwaedu y tu mewn i'r llygad** yn ystod y llawdriniaeth – fel arfer bydd yn clirio ar ei ben ei hun
- **Draenio gormod neu dim digon** o hylif – yn aml bydd yn setlo ond efallai y bydd angen triniaeth ychwanegol
- **Haint** – anghyffredin iawn ond yn ddifrifol; os yw eich llygad yn mynd yn goch, yn boenus, neu os yw eich golwg yn gwaethygu, cysylltwch â'r Adran Llygaid ar frys
- **Cataractau'n ffurfio** neu **gataractau presennol yn gwaethygu**

Am ba hyd fyddaf i yn yr ysbyty?

Fel arfer, achos dydd yw hwn, sy'n golygu y gallwch fynd adref ar ôl y llawdriniaeth oni bai bod unrhyw gymhlethdodau.

Efallai y bydd yn rhaid i chi ddod am apwyntiad dilynol y diwrnod canlynol a'r wythnos ganlynol.

Ar ôl y llawdriniaeth, DYLECH

- Ddarllen, gwylio'r teledu, a gwneud gweithgareddau ysgafn
- Mynd am dro hamddenol
- Coginio a gwaith tŷ ysgafn
- Gwisgo eich sbectol neu sbectol haul arferol yn ystod y dydd
- Gwisgo amddiffyniad llygaid gyda'r nos am 2 wythnos
- Defnyddio eich diferion llygaid sydd ar bresgripsiwn yn union fel y cyfarwyddiadau

- Parhau i ddefnyddio unrhyw ddiferion a oeddech yn eu defnyddio ar eich llygad cyn y llawdriniaeth oni bai eich bod wedi cael cyngor fel arall
- Cysylltwch â'r Adran Llygaid ar unwaith os yw'r:
    - Llygad yn mynd yn fwy poenus
    - Golwg yn gwaethygu'n sydyn

Ar ôl y llawdriniaeth, NI DDYLECH

- Rwbio neu bwyso ar eich llygad
- Ymarfer corff yn egnïol
- Codi eitemau trwm neu wneud gwaith garddio trwm
- Gwneud gwaith tŷ trwm
- Nofio neu ddefnyddio twba poeth
- Gwisgo colur ar eich llygaid nes y cewch gyngor ei bod yn ddiogel gwneud hynny

Ble gaf i ragor o gyngor?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi neu os oes gennych chi unrhyw bryderon, cysylltwch â:

Clinig Brys y Llygaid (EEC) Ffôn: **01633 238856** Ar agor: **8.30am – 5.30pm**

Neu cysylltwch â'r Meddyg Offthalmoleg **ar alwad** drwy switsfwrdd yr ysbyty.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg/
This document is available in Welsh and English.